

## ASTUDIAETH ACHOS

<b>Thema:</b>	<b>Ein cyngor</b>
<b>Awdurdod lleol:</b>	<b>Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili</b>
<b>Arfer da:</b>	<b>Panel Safbwynt</b>
<b>Dolen gyswllt:</b>	<b>Liz King</b>
<b>Ebost:</b>	<b>kinge@caerphilly.gov.uk</b>
<b>Ffôn:</b>	<b>01443 864354</b>

Mae **Panel Safbwynt** yn un o'r dulliau mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn eu defnyddio yn ei strategaeth ymgynghori i ymgysylltu â'i gwsmeriaid wrth ddatblygu a ffurfio ei wasanaethau a'i flaenoriaethau. Sefydlodd y panel ym 1998 i ateb gofynion Rhaglen y Gwerth Gorau ac, yn sgîl penodi swyddog ymgynghori yn 2001, mae'n rhoi mwy a mwy o gyfleoedd i'r cwsmeriaid gymryd rhan yn y broses benderfynu yn ogystal â rhoi gwybodaeth am sylwadau'r cwsmeriaid hynny.

Yn y bôn, 'mae hyn yn ymwneud â chwsmeriaid yn dylanwadu ar y modd mae gwasanaethau ar eu cyfer yn cael eu darparu, nid meithrin bodlondeb y cyngor am ymgynghori â'i ddinasyddion'. Fel pob awdurdod, rhaid i'r cyngor ystyried sut i ymgynghori'n effeithiol. Er nad yw'n unigryw defnyddio paneli ymgynghori â dinasyddion, gallai profiad CBS Caerffili o ddatblygu Panel Safbwynt wrth i nifer ei aelodau ac ehangder ei ddefnydd dyfu, gan ddatrys problemau a gwireddu posibiladau ehangach y panel er lles y cwsmeriaid a'r cyngor fel ei gilydd, gynorthwyo awdurdodau lleol eraill i ddatblygu neu wella eu paneli eu hunain.

### Yr heriau allweddol

Dyma'r prif faterion a heriau sydd wedi dod i'r amlwg hyd yma:

- **Gofalu bod y panel yn cynrychioli'r cwsmeriaid ac yn cynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd.**
- **Gofalu bod systemau rheoli gwybodaeth y panel yn rhoi gwybodaeth o'r radd flaenaf a bod yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu'n cyfeirio'n penderfyniadau a'n polisiau.**
- **Rhoi digon o adnoddau i'r panel a chynnal y manteision sy'n deillio ohono.**

## Aelodau'r panel

Er mai dim ond 70 o aelodau oedd gan y panel ar y dechrau, mae 1,360 erbyn hyn. Nod y panel yw cynrychioli'r gymuned o ran cefndir cymdeithasol, economaidd a daearyddol fel ei gilydd. Rydyn ni'n penodi aelodau yn bennaf trwy'r arolwg o gartrefi bob dwy flynedd yn ogystal â thargedu rhwydweithiau cymunedol penodol. Er enghraifft, rydyn ni'n penodi pobl anabl trwy gylchoedd megis Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent a Grŵp Mynediad Caerffili. Rydyn ni'n annog aelodau Fforwm yr Ifainc i fynychu cyfarfodydd a chymryd rhan mewn arolygon ac ati. Mae Cyngor Caerffili yn cydweithio'n agosach â mudiadau gwirfoddol megis Cyngor Cydraddoldeb Hiliol y Cymoedd er mwyn targedu carfanau sydd heb eu cynrychioli'n llawn ar y panel.

Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n dod i gylchoedd trafod dros 50 oed o hyd, fodd bynnag, achos bod rhagor o amser gyda nhw i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Mae'r cyngor yn cydnabod bod y panel yn ymwneud â mwy na hel adborth ac ymgynghori yn unig. Mae'n ymwneud ag ymgysylltu â charfanau o'r gymuned a allai fod o'r farn nad ydyn nhw'n cael dylanwadu ar y broses benderfynu, ac mae hyn yn flaenoriaeth uchel o hyd ynghylch datblygu'r panel.

I annog pobl i ddod i'r trafodaethau, rydyn ni'n cynnal y cyfarfodydd mewn lleoedd hawdd eu cyrraedd ledled y fwrdeistref sirol ac yn talu treuliau teithio. Rydyn ni'n cynnal cyfarfodydd yn y nos i ddenu cynulleidfa ehangach.

## Sut rydyn ni'n ei wneud?

Cylch llywio trawsadrannol sy'n cydlynu pob cais am ddefnyddio'r panel i ymgynghori, gan ofalu bod y defnydd yn briodol a bod unrhyw faterion ynghylch gwasanaethau'n cydblethu â blaenoriaethau'r cyngor. Ar ôl dod i gytundeb, mae'r tîm polisïau'n cydweithio â'r meysydd o dan sylw i lunio'r holiaduron y byddan nhw'n eu hanfon at aelodau'r panel. Ar ôl inni gael yr holiaduron yn ôl, byddwn ni'n sefydlu nifer o gylchoedd trafod. Mae tri neu bedwar cylch trafod a chyfarfod y flwyddyn, fel arfer, ac fe fyddwn ni'n osgoi eu trefnu ym misoedd Awst a Rhagfyr lle bo modd.

Y prif weithredwr a'r arweinydd sy'n arwain y broses, gan ymgynghori â'r cynghorwyr a'r cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am y meysydd dan sylw. Ar ôl cyflwyno'r canlyniadau, fe fydd swyddogion cymwysedig yn hwyluso nifer o gylchoedd trafod er mwyn manylu ar faterion sydd wedi'u codi yn yr arolwg.

Ar ôl y cylch trafod, maen nhw'n anfon y nodiadau at swyddogion y gwasanaethau perthnasol i'w cynnwys yn eu polisïau a'u hadroddiadau. Rydyn ni'n adolygu'r broses yn rheolaidd ac, o ganlyniad, mae'r newidiadau canlynol wedi'u trefnu:

### Ymgynghori prydlon:

Mae amserlen benodol i'r panel i ofalu bod modd ymgynghori mewn da bryd i gyfeirio prosesau penderfynu'r cyngor. Rydyn ni'n hel sylwadau'r panel am faterion strategol eang a does dim rhaid bod pob aelod wedi defnyddio'r gwasanaeth dan sylw — canolfannau hamdden, er enghraifft.

I ofalu bod cydlynu, cysondeb ac arferion mwy effeithiol ledled y sefydliad, rydyn ni wrthi'n sefydlu cronfa ddata gorfforaethol ar wefan y cyngor i ddibenion ymchwil ac ymgynghori (nid ar-lein eto).



## 'Cau'r bwlch':

Ar hyn o bryd, mae canfyddiadau a nodiadau'r cylch trafod yn mynd i'r gwasanaeth perthnasol i'w defnyddio yn ei bolisiau a'i adroddiadau. Gan fod yr awdurdod wedi buddsoddi yn y broses ymgynghori, mae angen rhagor o ddadansoddi i werthuso sut mae'n defnyddio'r ymgynghori i wella'i wasanaethau, yn ogystal â'r modd mae'r gwasanaethau unigol yn ei ddefnyddio. Bydd hynny'n helpu i ddangos i'r cwsmeriaid bod eu sylwadau'n cyfeirio'r broses benderfynu.

## Rhwydwaith yr Hwyluswyr:

Mae amrywiaeth eang o swyddogion y cyngor a'i bartneriaid megis y Bwrdd Iechyd Lleol a GAVO

ardal a bod ein partneriaethau ni'n gweithio'n effeithiol. Y fantais ychwanegol yw ein bod yn gwella medrau a gwybodaeth y gweithlu. Mae rhagor o hyfforddiant wedi'i nodi er mwyn cynnal y cylchoedd trafod yn fwy effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau.

## Neilltuo adnoddau a chynnal y manteision:

Mae'r awdurdod wedi ymrwymo i gynnal y panel am ei fod yn gwella'r broses ymgynghori. Mae'i werth wedi'i gydnabod yn y ffaith bod cabinet ac uwch reolwyr y cyngor yn cymryd rhan yn amryw lefelau'r prosesau rheoli. Mae swyddog ymgynghori'n gyfrifol am reoli'r panel ac mae cyllideb fechan ar gael iddo.

## Gweld gwahaniaeth

Mae'r panel yn ennill ei blwyf yn weithdrefn ymgynghori werthfawr. Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chasglu trwy hyn a gweithgareddau eraill wedi helpu'r cyngor i ddatblygu cynigion a dod i benderfyniadau.

llawer o wasanaethau'r cyngor ynghyd, a rhagor o hyfforddiant i'r staff ym maes gofalu am gwsmeriaid.

## Dyma rai o'r deilliannau:

- Ilunio Strategaeth Gymunedol Caerffili: Cafodd blaenoriaethau a nododd Panel Safbwynt 2004 eu cynnwys yn y strategaeth.
- glanhau'r strydoedd ac ailgylchu: Yn sgîl Panel Safbwynt 2003 a gweithgareddau ymgynghori eraill, neilltuodd y cyngor arian i brynu rhagor o finiau sbwriel a baw cŵn, cyflogi rhagor o swyddogion gorfodi sy'n cael codi dirwyon yn y fan a'r lle, cynnal rhaglen i feithrin ymwybyddiaeth o ailgylchu yn yr ysgolion ac ehangu rhaglen ailgylchu'r cyngor.
- gofalu am gwsmeriaid: mae data o'r panel yn 2005 wedi arwain at bennu safonau newydd ar gyfer gofalu am gwsmeriaid y cyngor, sefydlu canolfan alwadau sy'n dod â

## Gwaith partneriaeth:

Mae amryw wasanaethau a phartneriaid y cyngor yn defnyddio'r panel. Er enghraifft, defnyddiodd y Bwrdd Iechyd Lleol y panel i hel sylwadau am godi ysbyty yn Ystradmynach ac mae'r heddlu wedi'i ddefnyddio i gyfeirio eu gweithgareddau ynghylch diogelu'r gymuned.

## Datblygiadau yn y dyfodol:

- Mae'r cyngor yn rhan o gorff newydd, Grŵp Swyddogion Ymgynghori'r De, sy'n lledaenu ac yn datblygu arferion da.
- Efallai y bydd yn bosibl cynnal sesiynau ymgynghori ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill a'u partneriaid i hel sylwadau'r bobl mewn ardal ehangach.



## Pwyntiau dysgu

- Cadw pethau'n ffres trwy benodi aelodau newydd bob hyn a hyn.
- Sefydlu ffiniau gorchwyl y panel, gan gynnwys Deddf 'Mynnu Gwybodaeth' a Deddf 'Diogelu Data'.
- Hybu hygredd y panel ymhlith y rhai sy'n ymwneud ag e trwy gyfathrebu'n effeithiol a rhoi adborth — mae pobl am wybod bod eu cyfraniad o les. Mae'r prosesau yma'n destun adolygu neu ddatblygu ar hyn o bryd.
- Cynnal sesiwn holi ac ateb gydag aelodau'r cabinet a'r prif weithredwr yn y cylch trafod. O wneud hynny, bydd y panel yn canolbwyntio ar y pwnc dan sylw achos bod yr aelodau'n gwybod y bydd cyfle i drafod pynciau llosg ar y diwedd!
- Mae ymrwmiad yr awdurdod yn ei gyfanrwydd yn hanfodol i gynnal panel dinasyddion.

